Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru
Lindsay Foyster, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

10 Chwefror 2023

Annwyl Adrian a Lindsay

**Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024 a'r Cynllun Ffioedd 2023-24**

Ysgrifennaf yn dilyn gohebiaeth ddiweddar a oedd yn nodi gwallau yn y dogfennau a ganlyn a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Pwyllgor:

- Amcangyfrif 2023-24 - gofyniad arian parod net wedi'i or-ddatgan gan £280,000 (llythyr dyddiedig 19 Ionawr 2023), a
- Cynllun Ffioedd 2023-24 - graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad mewn awdurdodau unedol wedi'i gor-ddatgan (llythyr dyddiedig 2 Chwefror 2023)

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y materion hyn ar 31 Ionawr a 9 Chwefror yn y drefn honno. Er ein bod yn siomedig iawn bod y gwallau hyn wedi digwydd, nodwn fod y ddau ohonynt yn orddatganiadau nad ydynt yn arwain at gynnydd. Mae'r Pwyllgor felly wedi cymeradwyo'r Amcangyfrif a'r Cynllun Ffioedd ar gyfer 2023-24 wedi'u cywiro.

Disgwyliwn i chi fel y sefydliad sy'n archwilio ac yn dwyn cyrff eraill i gyfrif gynnal eich gwaith i safon fwy manwl gywir, ac o'r herwydd hyderwn y bydd camau'n cael cymryd i atal hyn rhag digwydd yn y dyfodol.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565